Ordnance Survey
Adanac Drive
Southampton
SO16 0AS

T: +44 (0) 3456 050505
customerservices@os.uk

17 September 2026

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Gynghorydd Jones,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 6 Awst 2026 ynghylch y cynnig a fabwysiadwyd mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd mewn perthynas â thrin enwau lleoedd tirwedd Cymru ar fapiau Arolwg Ordnans (OS).

Rydym yn cydnabod arwyddocâd diwylliannol, ieithyddol a hanesyddol dwfn enwau lleoedd Cymraeg ac yn croesawu'r cyfle i egluro dull gweithredu OS.

Er mai OS yw gwasanaeth mapio cenedlaethol Prydain Fawr, nid ef yw'r awdurdod ar enwau lleoedd. Ein cylch gwaith, fel y'i diffinnir yn ein tasg gyhoeddus, yw casglu daearyddiaeth gyson, derfynol ac awdurdodol y wlad, gan ddisgrifio agweddau ffisegol a dynol ein tirwedd. Mae hyn yn cynnwys disgrifiadau sy'n cael eu defnyddio, enwau priod/rhifau post adeiladau, lleoedd a nodweddion, ac wedyn eu darparu drwy ein cynhyrchion a'n gwasanaethau ledled Prydain Fawr, waeth beth fo'r iaith.

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, rydym yn gwneud ymholiadau ac yn ymgynghori ag awdurdodau priodol er mwyn sefydlu, mor awdurdodol â phosibl, yr enw, y ffurf a'r sillafiad mwyaf addas ar gyfer pob lle a ddangosir. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth enwi nodweddion daearyddol yn yr amgylchedd naturiol lle efallai nad oes perchennog cydnabyddedig, yn wahanol i'r amgylchedd adeiledig.

Weithiau mae mwy nag un enw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer un nodwedd, ac mewn achosion lle mae'r defnydd o ddau enw yn ddigon cyffredin, gall fod angen cofnodi a/neu ddangos y ddau.

Mae'r Polisi Enwau Cymraeg, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2024 gyda chefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg, yn ailddatgan y dull hwn. Mae'n ymrwymo OS i gynnal deddfwriaeth y Gymraeg ac i sicrhau bod enwau Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn achosion lle gellir dangos bod y ddwy ffurf yn cael eu defnyddio'n weithredol.

Mae OS yn defnyddio ffurfiau Cymraeg sefydledig, cyfeiriadau hanesyddol, gwybodaeth gan gyrff awdurdodol yng Nghymru, yn ogystal â thystiolaeth ar lawr gwlad a gesglir gan syrfewyr OS. Mae hyn yn sicrhau bod enwau Cymraeg hirsefydlog yn rhan ganolog o'n cronfa ddata ddaearyddol lle mae'r dystiolaeth yn eu cefnogi.

Ni all OS benderfynu ar ei ben ei hun i newid enw. Mae unrhyw newidiadau a wneir fel arfer yn deillio o newidiadau a wneir gan gyrff awdurdodol neu pan fydd enw yn mynd allan o ddefnydd a bod enw arall yn dod i ddefnydd. Mae hyn hefyd yn golygu na all OS ddisodli un enw ag enw arall yn unochrog nac, mewn achosion o enwau deuol neu ddwyieithog, ddewis ar ei ben ei hun i ddileu un enw dros enw arall os yw'r ddau enw yn cael eu defnyddio. Nid oes gan OS unrhyw awdurdod ychwaith i hysbysu na gorfodi perchnogion eiddo yn yr amgylchedd adeiledig i ddiwygio enw lle, hyd yn oed mewn achosion lle gallai enw anghywir fod wedi'i gofrestru.

Pan fydd enw Saesneg yn ymddangos ochr yn ochr ag enw Cymraeg, mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth bod y ddwy ffurf yn cael eu defnyddio'n gyfoes ac yn gydnabyddedig. Nid yw OS yn cyfieithu enwau o un iaith i'r llall, nac yn dyfeisio fersiynau Saesneg lle mai enwau Cymraeg yn unig sy'n bodoli.

Mae gan OS hefyd ddyletswydd i sicrhau bod ei gynhyrchion yn parhau'n ddefnyddiol i'r cyhoedd a'r gwasanaethau brys. Mae adlewyrchu enwau sydd yn amlwg mewn defnydd gweithredol yn helpu i gynnal eglurder ac yn cefnogi ymatebwyr sy'n dibynnu ar enwau adnabyddus a diamwys i lywio'n ddiogel ac yn effeithlon.

Mae OS yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda chyrff awdurdodol Cymreig i sicrhau bod enwau Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n briodol. Rydym wedi cefnogi gwaith diweddar i fabwysiadu nifer o enwau lleoedd Cymraeg safonol ar gyfer llynnoedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ein cronfa ddata. Dyma'r math o broses gydweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu i sicrhau cydnabyddiaeth briodol i enwau Cymraeg yn ein mapio. Yn dilyn ymgynghoriad â'r Parc Cenedlaethol, rydym eisoes wedi ychwanegu Coed Cerrig y Frân a Llwybr Gwregys at ein data.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod mwyafrif y newidiadau enwi dros y degawd diwethaf wedi bod yn gysylltiedig ag ychwanegu, gwella a safoni enwau Cymraeg, gyda chymharol ychydig o newidiadau yn ymwneud ag enwau sy'n cynnwys elfennau Saesneg.

Sylwch nad yw pob enw a gesglir gan OS yn ymddangos ar bob cynnyrch mapio. Er enghraifft, ar fapiau papur, mae cyfyngiadau graddfa a gofod yn golygu bod angen blaenoriaethu'n ofalus er mwyn cynnal darllenadwyedd a defnyddioldeb llywio. Gwneir hyn yn unol ag arfer gorau ac egwyddorion cartograffig.

Pan godir pryderon ynghylch enwau lleoedd penodol, mae OS yn eu hymchwilio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, awdurdodau'r Parc Cenedlaethol neu gyrff priodol eraill. Ym mhob achos byddai angen sicrhau bod tystiolaeth ddigonol bod yr enw: a) mewn defnydd presennol; a b) angen ei ddiwygio.

Fel y nodir yn ein polisi, ni fyddwn yn derbyn dehongliad unrhyw unigolyn unigol wrth ystyried enwau Cymraeg lle gallai fod gwrthdaro o ran sillafiad neu fersiwn.

Lle mae tystiolaeth awdurdodol yn cadarnhau y dylid cofnodi ffurf wahanol, bydd OS yn diweddaru ei fapio yn unol â hynny. Gellir diweddaru cynhyrchion digidol yn gyflym, tra bo mapiau papur yn dilyn y cylch cynhyrchu argraffu a drefnwyd.

Er bod OS yn ymdrechu am gywirdeb bob amser, mae'n cydnabod y gall camgymeriadau ddigwydd, a gellir tynnu sylw atynt drwy'r dudalen gyswllt ganlynol: Siaradwch â ni yn Gymraeg | Contact us | OS (https://www.ordnancesurvey.co.uk/contact-us/gymraeg)

Gobeithiaf fod y wybodaeth uchod yn helpu i egluro ein rôl. Byddwch yn sicr bod Arolwg Ordnans yn rhannu'r nod o sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cofnodi'n gywir a'u cynrychioli'n briodol, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gydweithio ag awdurdodau Cymreig, Comisiynydd y Gymraeg a chymunedau lleol er mwyn cynnal a gwella cynrychiolaeth enwau Cymraeg ar draws ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.

Yn gywir,

Cerys Head
Cynghorydd Gwasanaeth Cwsmeriaid
Arolwg Ordnans